



Rhagfyr 2020

Annwyl riant/ofalwr

Wrth i ni agosáu tuag at ddiwedd y tymor, roeddwn yn meddwl y byddai'n amser da i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddatblygiadau a gweithgareddau'r ysgol.

'Covid-19'

Mae'r tymor, wrth gwrs, wedi'i ddominyddu gan 'Covid-19', a'n hymdrechion i sicrhau diogelwch yr holl ddisgyblion a staff yr ysgol.

Byddwch yn gwybod ein bod wedi cael digwyddiadau ynysig, ac ar adeg ysgrifennu, mae gennym nifer fach o ddisgyblion a staff yn ein hadran Dechnoleg yn hunan-ynysu fel rhagofal. Rydym hefyd yn falch iawn o groesawu pob un o'r disgyblion a'r staff o'n Uned ADY nôl yr wythnos hon. Rwy'n falch o ddweud eu bod i gyd yn iach ac yn dda yn dilyn eu cyfnod o hunan-ynysu. Rwyf hefyd yn falch o adrodd nad oes gennym unrhyw achos arall yn yr ysgol, ac rydym yn parhau i weithredu'n effeithiol ac yn unol â'n gweithdrefnau diwygiedig.

Mae presenoldeb disgyblion wedi aros yn uchel iawn, sy'n fesur o'ch hyder yn ein systemau, a diolch unwaith eto am hynny.

Mae'r ysgol yn parhau i weithredu ar unwaith ar unrhyw ganllawiau sy'n gysylltiedig â 'Covid', ac rydym yn diweddarau ein Asesiad Risg yn rheolaidd, i adlewyrchu ein gweithdrefnau newidiol. Mae copi o'r Asesiad Risg ar gael i'w weld ar ein gwefan, neu trwy ddilyn y ddolen [yma](#).

Diolch unwaith eto am eich cydweithrediad wrth sicrhau bod eich plentyn/plant yn dilyn ein polisïau 'Covid-19'. Hoffwn eich hatgoffa na ddylech anfon eich plentyn i'r ysgol os yw'n teimlo'n sâl, a bod ganddo/i un neu fwy o'r symptomau clasurol sy'n gysylltiedig â 'Covid-19' - tymheredd uchel, peswch parhaus neu colli blas neu arogl.

Cyfoethogi

Mae Cwricwlwm Newydd Cymru (CNC) yn rhoi pwyslais arbennig ar Iechyd, Lles a Chyfoethogi, ac er gwaethaf heriau 'Covid', rydym yn falch ein bod wedi gallu lansio ein rhaglen Cyfoethogi. Mae hon yn fenter arloesol, gyda'r nod o roi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi, yn ychwanegol at yr hyn y byddent yn ei dysgu fel arfer fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Ymhlith y gweithgareddau mae: clwb dadlau, 'claymation', steilio gwallt creadigol, clwb pysgota, amaethyddiaeth, dysgu Japaneg, clwb Shakespeare, clwb rhwyfo, clwb sofffa i '5K', a llawer mwy. Mae'r disgyblion yn dewis pa weithgaredd yr hoffent fod yn rhan ohono, ac wedyn yn cymeryd rhan yn y weithgaredd hwnnw am sesiynau 3x2-awr dros gyfnod o 6 wythnos. Ar ddiwedd yr amser hwnnw, gall disgyblion ddewis gweithgaredd cyfoethogi arall sydd o ddiddordeb iddynt. Rwy'n ddiolchgar iawn i staff yr ysgol am gynnig ystod mor eang o weithgareddau. Y nod yn y pen draw yw ymgysylltu â'r gymuned i gynnig cyfleoedd hyd yn oed yn ehangach.



'RACS'

Derbyniodd yr ysgol bron £30 mil wrth Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu rhaglen **'Recrwtio, Adfer a Chodi Safonau'**. Nod y cyllid yw sicrhau bod cefnogaeth 'dal i fyny' a chefnogaeth 'emosiynol' yn cael ei dargedu'n effeithiol yn dilyn y cyfnod cloi. Rydym wedi gweithredu ystod eang o strategaethau a fydd yn ein galluogi i wneud hyn:

- Rydym wedi cyflogi Hyfforddwr Dysgu amser llawn, a fydd yn darparu cefnogaeth un am un i ddisgyblion sydd wedi'u targedu ar draws y grwpiau blwyddyn, ond yn enwedig y disgyblion sy'n paratoi ar gyfer asesiadau TGAU.
- Rydym wedi cyflogi Hyfforddwr Ymwybyddiaeth Ofalgar rhan-amser, a fydd yn darparu cefnogaeth Lles ac emosiynol un am un i ddisgyblion sydd wedi'u targedu.
- Byddwn yn datblygu rhaglen ddysgu 'Mwy Galluog a Thalentog' yn fewnol, ar gyfer disgyblion sydd wedi'u targedu.
- Rydym wedi creu rhaglen adolygu ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion sy'n paratoi am asesiadau TGAU. Gellir gweld copi o amserlen y rhaglen [yma](#).

Anogwch eich plentyn i fynychu'r sesiynau yma. Mae'n hanfodol bwysig i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn. Sicrhewch y bydd ein harferion 'Covid' arferol yn cael eu dilyn yn ystod pob sesiwn.

Blwyddyn 11

Llongyfarchiadau i Flwyddyn 11 am gwblhau eu arholiadau ffug. Mae'r canlyniadau wedi darparu meincnod da iawn i ni a'r myfyrwyr, wrth i ni symud ymlaen at baratoi yr asesiadau TGAU. Ar yr adeg yma o ysgrifennu, nid ydym eto wedi derbyn gwybodaeth fanwl ynghylch sut y bydd asesiadau canolfan yn gweithredu, ac yn cael eu defnyddio wrth benderfynu'r graddau terfynol. Byddaf yn eich diweddarau pan fyddwn yn derbyn arweiniad pellach.

Blwyddyn 9

Fel rhieni/gofalwyr disgyblion ym Mlwyddyn 9, byddwch yn ymwybodol ein bod wedi dechrau'r broses o ddewis Opsiynau. Mae hwn yn amser cyffrous i bawb, er ein bod hefyd yn gwybod y bydd rhai disgyblion yn cynhyrfu pa bynciau i'w dewis. Er ei bod yn annhebygol y bydd modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â staff addysgu, mae gennych fy sicrwydd y byddwn yn rhoi prosesau ar waith a fydd yn caniatáu i chi a'ch plentyn wneud y penderfyniadau gorau. Bydd mwy o wybodaeth ar gael i chi yn y flwyddyn newydd. O brofiad, rydym yn gwybod nad yw dewis cydbwysedd pynciau cywir bob amser yn broses cyflym, a gyda hyn mewn golwg, rhoddir cyfle i'r disgyblion cael blas ar wersi yn Nhyrnor yr Haf. Caniateir iddynt newid rhwng pynciau (o fewn yr un grŵp o Opsiynau) nes eu bod yn hapus gyda'u dewisiadau. Gellir gweld copi o lyfryn Opsiynau Blwyddyn 9 [yma](#).

Cyflawniadau Disgyblion

Mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol iawn ar y cyfleoedd allgyrsiol sydd ar gael i ddisgyblion. Yn anffodus, nid ydym wedi gallu rhedeg Cynhyrchiad eleni, ac mae'r holl gemau chwaraeon a digwyddiadau cerddorol eraill fel y Noson Garolau wedi'u canslo.



Llwyddiant Awdur Ifanc y Rotari

Enillodd Beatrice Hole, disgybl Blwyddyn 9, Cystadleuaeth Lleol a rhanbarthol Awduron Ifanc Rotari Prydain Fawr ac Iwerddon eleni. Yna aeth Beatrice ymlaen i ddod yn ail ar lefel Genedlaethol y DU.

Thema eleni oedd 'Cysylltiadau', ac ysgrifennodd Beatrice am ei pherthynas â'i thad-cu ei hun a oedd yn 'Rotarian' yn Wolverhampton, a sut, hyd yn oed ar ôl ei farwolaeth, mae ei bresenoldeb yn y byd yn parhau.

Dewiswyd ei darn fel enillydd o tua 100 gynigion lleol, yna aeth ymlaen i ennill rownd De Cymru o'r gystadleuaeth, cyn cystadlu yn rownd derfynol y DU.

Cyflwynwyd tlws i Beatrice yn yr ysgol ym mis Tachwedd gan Ms Mary Adams, Llywodraethwr Cynorthwyol Rotari Cymru, ar ran Rotari Prydain Fawr ac Iwerddon.

I ddarllen gwaith Beatrice, ewch i: [Rotary Young Writer 2020: The national results](#) a chlicio ar y linc i'r enillwyr canolradd.



Yn y llun o'r chwith: Mr Timothy Bercury (Pennaeth Saesneg), Ms Mary Adams (Llywodraethwr Cynorthwyol Rotari Sir Benfro), Beatrice Hole, a, Mr Mike Isles, (Cadeirydd Rotari Abergwaun ac Wdig).

Teis Sirol ar gyfer 'Super Six' Ysgol Bro Gwaun

Llongyfarchiadau i'r bechgyn canlynol a dderbyniodd eu teis Sirol ym mis Tachwedd - Jac Delaney, Ethan Sapsford, Daniel Page, Bryn Thomas, Dylan Scott a Daniel Cleary.

Mae'r bechgyn yn rhan o dîm llwyddiannus o Ysgolion Sir Benfro a gyrrhaeddodd rownd gynderfynol cystadleuaeth Plât Genedlaethol Morgan Griffiths cyn i'r tymor gael ei atal.

Mae'r dynion ifanc hyn hefyd wedi bod yn fodelau rôl a llysgenhadon gwych ar gyfer rygbi yn y gymuned leol. Rydym yn dymuno'r gorau iddynt yn y dyfodol, ar, ac oddi ar y cae.



Ysgol Bro Gwaun

Plant Mewn Angen – Skipathon

Diolch enfawr i bawb am yr ymdrech wych a roddwyd i godi arian i 'Blant Mewn Angen - Skipathon' ym mis Tachwedd. Codwyd cyfanswm o £572.51, cyflawniad enfawr yn y sefyllfa presennol, ac mae'n adlewyrchu'r gwaith rhyfeddol o fewn teulu Ysgol Bro Gwaun. Diolch i chi i gyd am eich rhodd.

Gwobr Ysgoloriaeth Goffa Tim Noott 2019-20

Anogir disgyblion o bob oed i ymgeisio am Wobr Ysgoloriaeth Tim Noott, a chaiff y ceisiadau eu beirniadu gan Mr a Mrs Noott, ar y cyd ag UDR yr ysgol.

Dyfarnwyd y wobr ar gyfer 2019-20 i Liah Williams, Blwyddyn 10, sy'n parhau i weithio'n ddiwyd. Defnyddir yr ysgoloriaeth i dalu am weithgareddau allgyrsiol fel digwyddiadau Cadetiaid, Theatr, Bocsio, Dawns a gwersi Piano. Rydym yn dymuno pob llwyddiant iddi yn y flwyddyn i ddod, a thu hwnt.

Yn ogystal â Gwobr Ysgoloriaeth Goffa Tim Noott, mae Mr a Mrs Noott yn dyfarnu 'Gwobr Goffa Tim Noott am Gelf' yn flynyddol i Noson Wobrwyo yr ysgol. Anwen Reed oedd y derbynydd llwyddiannus ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018-19.

Mae'r ysgol, rhieni, gofalwyr, llywodraethwyr a'r disgyblion, fel bob amser, i gyd yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth a'r buddsoddiad parhaus hwn mewn hunan-ddatblygiad disgyblion yn Ysgol Bro Gwaun. Mae pawb yn gwerthfawrogi cymorth Mr a Mrs Noott yn fawr iawn. Diolch yn fawr.

Dyddiad i'w gofio:

Bydd Tymor y Gwanwyn yn cychwyn i'r holl ddisgyblion ddydd Mawrth 5ed Ionawr.
Wythnos A fydd hon.

Yn olaf, ar ran staff a llywodraethwyr Ysgol Bro Gwaun, hoffwn ddymuno Nadolig Llawn, hamddenol a diogel i chi i gyd. Gobeithio y bydd 2021 yn caniatáu i ni ddychwelyd at ein 'hen normalrwydd'.

Yr eiddoch yn gywir



Paul Edwards

Pennaeth



Yn anfon ein dymuniadau gorau atoch am Nadolig heddychlon a diogel.

Sending you our very best wishes for a safe and peaceful Christmas

Ysgol Bro Gwaun